

Annwyl Olga Lewis, Clerc Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5,

Ynglŷn â Gorchymyn Cymhwysedd yr Iaith Gymraeg.

Ysgrifennaf atoch ar ran Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mewn ymateb i'ch llythyr diweddar atom yn dilyn ein sesiwn cyflwyno tystiolaeth ger eich bron yng nghyfarfod y Pwyllgor Craffu ar y 17eg o Fawrth 2009. Buaswn yn ddiolchgar petaech yn sicrhau bod holl aelodau'r Pwyllgor Craffu yn derbyn copi o'r llythyr hwn a'r atodiadau.

Hoffwn fel Cymdeithas gynnig rhai pwyntiau ychwanegol yn sgil ein tystiolaeth ni a thystiolaeth eraill sydd wedi ymddangos gerbron y Pwyllgor. Hefyd, atodaf yn Atodiad 1 ein hymateb i dri chwestiwn na chawsom gyfle i'w hateb oherwydd diffyg amser ac yn Atodiad 2 cyflwynaf wybodaeth bwysig mewn perthynas â chwmnïau ffonau symudol a gwasanaeth yn Gymraeg. Yn unol a'ch cais, amgaeaf gopïau o'n cyhoeddiad 'Mesur Iaith Cyflawn 2007' sy'n crynhoi'r pwyntiau a'r egwyddorion y credwn eu bod yn angenrheidiol er mwyn gwrthdroi'r tirwedd ieithyddol yma yng Nghymru i sicrhau normaleiddio defnydd o'r Gymraeg a chreu Cymru wirioneddol ddwyieithog.

1. Yn gyntaf, hoffwn bwysleisio bod Cymdeithas yr Iaith yn ymgyrchu dros hawliau i'r Gymraeg, statws swyddogol a Chomisiynydd i'r Iaith Gymraeg **er budd pawb sy'n byw yng Nghymru**. Credwn fod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru a bod gan holl bobl Cymru yr hawl i weld a chlywed y Gymraeg o'u cwmpas fel iaith byw a llwyddiannus pa un ai ydynt yn siarad Cymraeg ai peidio. Mae miloedd ar filoedd o rieni yn dymuno derbyn addysg Gymraeg i'w plant er nad ydynt hwy yn medru siarad Cymraeg ac mae'r rhan fwyaf o bobl Cymru yn dangos balchder yn y Gymraeg fel rhan o'u hetifeddiaeth hanesyddol. Ymhellach, credwn mai un o gyfrifoldebau craidd pob llywodraeth yw cymryd rhan arweiniol wrth sicrhau dyfodol iaith genedlaethol y genedl honno. Yn ein tyb ni, mae'r sefyllfa bresennol o ddiffyg hawliau pendant i ddefnyddio'r Gymraeg ynghyd â diffyg statws y Gymraeg yn annerbyniol ac yn dal y Gymraeg yn ôl. Mae sefydlu hawliau yn ffordd ddiymwad o greu cydraddoldeb ac mae cydraddoldeb yn sail bwysig i gymdeithas decach a mwy cytûn.

2. Yn ail, pwysleisiwn nad ydym yn afrealistig yn ein disgwyliadau am ddwyieithrwydd. Fe welwch yn ein cyhoeddiad Mesur Iaith 2007 ein bod yn cynnwys model cwbl realistig o sut mae modd sefydlu dwyieithrwydd gweithredol mewn modd graddol a chyfrifol sy'n parhau hawliau'r cyhoedd ac yn cynorthwyo cyrff wrth gyflawni eu dyletswyddau.

Yn y bôn, os yw'r Llywodraeth o ddifrif am weithio i sicrhau bod Cymru yn gwbl ddwyieithog, rhaid creu cyd-destun ffafriol i hynny ddigwydd. Y cyd-destun hwnnw yw rhoi statws a lefel o ddisgwyliad am yr iaith Gymraeg yng Nghymru, mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn ogystal, ac felly mewn ugain mlynedd gellir gweld gwahaniaeth mawr yn y nifer o bobl all gynnig gwasanaethau yn Gymraeg pan ewch mewn i siop unrhyw le yng Nghymru.

Yn rhy hir, mae Prydain wedi methu a deddfu a llunio polisiau llwyddiannus ar gyfer ieithoedd lleiafrifol. Hoffem weld Cymru yn rhan o'r disgwrs positif rhyngwladol o blaid amlieithrwydd, ac yn gweithredu polisi o ddwyieithrwydd real, fydd yn fater o falchder yn egwyddorol, ac yn ymarferol mewn gwlad gwirioneddol ddwyieithog Os na chawn ni Orchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol agored a chymwys, ni fydd gan Lywodraeth y Cynulliad lwyfan i wneud hynny yn y dyfodol agos na'r dyfodol pell os dymunir ddeddfu ymhellach.

Yn wir, cawsom ein syfrdanu gan yr ymateb a dderbyniom gan y cyhoedd pan wnaethom gais arbennig am enghreifftiau o ddiffyg hawliau i'r Gymraeg. Cyflwynwyd y ddogfen tystiolaeth honno ichwi yn ystod ein sesiwn rhoi tystiolaeth ar Fawrth 17. Mae ein dogfen yn cynnwys ystod eang o bob math o enghreifftiau o ddiffyg gwasanaeth dwyieithog ac effaith hynny ar unigolion yn eu bywydau pob dydd. Pwysleisiwn nad oes unrhyw gorff fel y cyfryw wedi monitro effeithlonrwydd Deddf 1993 yn y modd yma, hynny yw, hysbysebu yn eang a gwahodd y cyhoedd i ddanfôn cwynion er mwyn dilyn y cwynion hynny i fyny. Nid yw Bwrdd yr Iaith erioed wedi gweld ei rôl yn y ffordd yma ac nid oes gan y Bwrdd yn ein tyb ni yr ewyllys na'r pŵer i weithredu fel eiriolwyr i bobl Cymru mewn perthynas â'r Gymraeg. Mae'r Bwrdd iaith ers ei sefydlu yn rhan o'r sefydliad a'r *status quo* – dim ond yn ddiweddar iawn mae'r Bwrdd wedi cytuno bod angen unrhyw newid yn y ddeddfwriaeth. Mae aelodau'r Bwrdd yn ein tyb ni wedi bod yn rhy awyddus i beidio ysgwyd y cwch fel petai. Nid oes modd edrych i'r Bwrdd weithredu fel pencampwyr dros sicrhau hawliau i'r sawl sy'n defnyddio'r Gymraeg. Dyna pam y mae angen creu swyddogaeth gwbl newydd o ran Comisiynydd i'r Gymraeg fydd yn berchen ar y pwerau angenrheidiol i wneud gwahaniaeth.

3. Yn benodol ym maes telegyfathrebu, rydym yn gwrthod yn bendant ddadleuon sydd wedi eu cyflwyno ger eich bron yn ddi-sail ynglŷn â goblygiadau economaidd negyddol. Yn wir, rydym yn benderfynol o gywiro unrhyw dadleuon camarweiniol a dadlennu cymhellion hunanol y sawl sy'n eu harddel. Yng nghyfarfod Pwyllgor Deddfwriaeth 5 ar Fawrth 31ain 2009, honnodd Hamish Mcleod, cadeirydd y Mobile Broadband Group fod prisiau gwasanaeth yn uwch i gwsmeriaid yng Ngwlad Belg nag yn y DU oherwydd bod rhaid cynnig gwasanaeth dwyieithog yng Ngwlad Belg (Fflemeg a Ffrangeg). Rydym wedi cynnal ymchwil i'r sefyllfa.

Mae tri prif ddarparwr yng Ngwlad Belg, sef Mobistar, Base a Proximus. Mae gan Mobistar wefan gwbl ddwyieithog (Fflemeg a Ffrangeg) ac mae gwefannau Base a Proximus yn gwbl dairieithog (Saesneg yw'r drydedd iaith). Dyma eu prisiau:

Mobistar	Galwad	27c -26c
	SMS	11c
Base	Galwad	23c
	SMS	11c
Proximus	Galwad	26c
	SMS	11c

Fe gymharon ni brisiau ffôn 'Pay as You Go' y cwmnïau hyn gyda phrisiau cwmnïau Prydain:

Orange	Galwad	15-20c
	SMS	10c
Vodafone	Galwad	20c
	SMS	10c
O2	Galwad	25c
	SMS	10c

Fe welwch, er bod prisiau Gwlad Belg yn edrych fymryn yn ddrutach, dylid cofio bod y gyflog ar gyfartaledd yn uwch yno (£26,023 y flwyddyn) lle mae'n £24, 908 yn y DU ac mae costau byw yn is yno. Nid ydym yn derbyn, felly, fod costau yn uwch yng Ngwlad Belg oherwydd gwasanaeth amlieithog.

Gofynnwn ichwi hefyd roi ystyriaeth ddwys i'r wybodaeth a gynhwysir yn Atodiad 2.

4. Yn olaf, hoffem bwysleisio ein barn fod y broses o ddatganoli pwerau deddfwriaethol i Gymru i ddeddfu yn maes y Gymraeg yn fater mae'r Gymdeithas yn ei chefnogi'n ddiamod. Rydym eisiau'r cytundeb gorau i Gymru ac i'w dinasyddion, ac yn arbennig nid ydym am weld cyfyngiadau ffurf bresennol y Gorchymyn yn rhwystro creu mesur a fydd yn cynnwys statws swyddogol i'r iaith Gymraeg, cyfres o hawliau cyflawn i'r Gymraeg a chreu rôl Comisiynydd iaith Gymraeg. Credwn mai aelodau etholedig y Cynulliad y dylid eu harfogi i lunio deddfwriaeth dros y Gymraeg ac nad oes unrhyw reswm dilys pam y dylai unrhyw bŵer dros y Gymraeg aros yn San Steffan. Rhybuddiwn yn daer, os na fydd y Gorchymyn yn ddigon eang, y bydd hynny yn rhwystro'r ffordd i'r Cynulliad greu mesur neu fesurau effeithiol, ac yn rhwystro pobl Cymru rhag cael hawliau cyfartal a chyfiawn.

Rydym yn hapus i drafod neu esbonio unrhyw gwestiynau pellach sydd gennych ynglŷn a'r mater hwn ac i ateb dadleuon.

Byddem yn barod i gael ein galw unwaith eto gerbron y Pwyllgor Craffu pe dymunech hynny.

Yn gywir iawn,

Menna Machreth

Cadeirydd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Atodiad 1 - Cwestiynau gan y Pwyllgor Craffu

Cwestiwn 1: Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn awgrymu ei bod yn debygol y byddai cwmnïau mawr yn agor adrannau newydd yng Nghymru er mwyn mynd i'r afael â'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau Cymraeg, ac felly byddai'n arwain at greu mwy o swyddi yng Nghymru. A wnewch chi ymhelaethu ar eich pwynt y gallai mwy o swyddi gael eu creu yng Nghymru yn sgil ehangu cwmpas y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig i gynnwys cwmnïau mawr?

Ateb: Rydym yn awgrymu y gallai cynnwys cwmnïau mawr yn y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol fod o fantais economaidd sylweddol i Gymru. Pe bai'r cwmnïau yn cael eu cynnwys mewn Mesur Iaith, byddai'n angenrheidiol iddynt ddarparu gwasanaethau dwyieithog ac felly y ffordd fwyaf effeithiol i wneud hynny fyddai i agor canghennau gweinyddol a gweithredol yng Nghymru gan olygu naill ai gynyddu'r swyddi sydd ganddyn nhw yng Nghymru neu symud canolfan alw neu ddsbarthu i Gymru o lefydd eraill neu o leiaf is-gontractio i gwmnïau eraill sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru. Ni fyddai'n effeithiol i barhau i wasanaethu Cymru o lefydd tu allan i Gymru. Os ystyriwn canolfannau dosbarthu Tesco fel enghraifft, mae eu canolfannau mewn lleoliadau yn Lloegr er yn gwasanaethu Cymru. Byddai gosod gorfodaeth arnynt i ddarparu gwasanaethau dwyieithog yn rheswm ychwanegol iddynt leoli mwy o swyddfeydd yng Nghymru gan obeithio byddai hyn yn cryfhau eu hunaniaeth Gymreig a gwerthu cynnyrch o Gymru. Mae gan Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ymgyrch 'Tesco Cymru' a 'Morrisons Cymru' sydd gyda'r nod yma. O ran perthnasedd hyn i'r sefyllfa economaidd, rydym yn credu fod angen lleoleiddio ein heconomi ac amddiffyn Cymru rhag effeithiau globaleiddio. Dyma ffordd effeithiol iawn o wneud hynny.

Yn wir, credwn yn gryf fod angen rhoi diwedd ar y pla o rhagolygon negyddol ynglŷn â goblygiadau ymestyn dwyieithrwydd yn y byd busnes, ac ehangu ein gorwelion i'r manteision economaidd all ddod o yn sgil dwyieithrwydd ymarferol yng Nghymru.

Credwn yn gryf fod angen i'r Gorchymyn fod mor agored ag sy'n bosib er mwyn cynnwys sefyllfaoedd a allai godi yn y dyfodol; y *future-proofing* sydd wedi ei grybwyll yn aml yn ystod y broses o graffu'r Gorchymyn. Dyna ddylai fod ar flaen meddwl y Pwyllgor Craffu wrth lunio adroddiad o awgrymiadau i'r Gweinidog, ac arbed gorfod mynd drwy'r broses hon eto. Gellid naill ai rhestru'r holl wasanaethau i'r cyhoedd nad ydynt yn y Gorchymyn ar hyn o bryd, neu eirio'r Gorchymyn fel bod pob pŵer dros y Gymraeg yn cael ei drosglwyddo i'r Cynulliad, ac yna rhestru'r eithriadau; fe fyddai hyn yn golygu fod unrhyw wasanaethau newydd a gaiff ei ddatblygu yn y dyfodol ddod o dan awdurdod Llywodraeth y Cynulliad yn syth.

Cwestiwn 2: Mae Cymdeithas yr Iaith Gymraeg wedi cymharu darpariaeth Gatalaneg IKEA â'r ddarpariaeth Gymraeg yn siop IKEA yng Nghaerdydd. O ystyried y gwahaniaeth rhwng nifer y bobl sy'n gallu siarad Catalaneg yng Nghatalonia a nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg yng Nghymru, a yw hon yn gymhariaeth ddilys?

Ateb: Mae'n wir bod canran y siaradwyr yn wahanol, ond y pwynt yw bod IKEA yn darparu gwybodaeth yng Nghatalaneg nid oherwydd bod canran y siaradwyr yn uwch ond oherwydd bod y ddeddfwriaeth iaith sydd yn bodoli yng Nghatalonia yn gosod seiliau cryf a chllir ar gyfer normaleiddio defnydd o'r Gatalaneg. Mae cwmni mawr rhyngwladol fel IKEA wedi hen arfer a gweithredu yn amlieithog. Nid yw gweithredu yn amlieithog yn broblem

iddynt. Ond dydyn nhw ddim wedi mynd ati weithredu'n ddwyieithog yng Nghymru oherwydd nid oes unrhyw ddisgwyliad cyfreithiol arnynt i wneud hynny. Mae'n ddiddorol nodi bod IKEA hefyd yn gwneud defnydd o'r iaith Basgeg ac mae canran y siaradwyr Basgeg yn debyg iawn i ganran y boblogaeth sy'n siaradwyr Cymraeg. Unwaith eto deddfau iaith gwlad y Basg sy'n gwneud y gwahaniaeth.

Rydym yn annog aelodau'r Pwyllgor Craffu i alw am farn arbenigwyr ar gynnwys a goblygiadau deddfau iaith Catalwnia, Gwlad y Basg a Chanada megis Elin Haf Gruffydd Jones, Cyfarwyddwraig Mercator, Prifysgol Aberystwyth a'r Athro Colin Williams, Prifysgol Caerdydd.

Cwestiwn 3. Nid yw'r tystion yn credu bod rheswm dros eithrio cyrff y Goron a Gweinidogion y Goron rhag cydymffurfio â'r un cyfrifoldebau â chyrff cyhoeddus eraill. Pam nad ydych yn credu bod rheswm dros eithrio Gweinidogion y Goron rhag cydymffurfio â'r un cyfrifoldebau â chyrff cyhoeddus eraill (yn yr ystyr bod angen caniatâd yr Ysgrifennydd Gwladol cyn bod corff y Goron yn dod yn destun darpariaethau'r Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig)?

Ateb: Ni allwn ni weld unrhyw gyfiawnhad dros eu heithrio. Mae Gweinidogion y Goron wedi eu heithrio o'r gyfundrefn Cynlluniau Iaith o dan ddeddf 1993. Y canlyniad yw darpariaeth anwastad. Mae rhai adrannau o Lywodraeth y DU wedi cyflwyno cynlluniau iaith yn wirfoddol ond mae adrannau wedi gwrthod. Fel y nododd Bwrdd yr Iaith, er eu bod wedi 'gwahodd' pob adran o Lywodraeth y DU i gyflwyno cynllun iaith, mae 8 wedi gwneud ond mae 8 wedi gwrthod, sef:

- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (Adran Materion Cyfansoddiadol gynt)
- Swyddfa Cabinet
- Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd
- Y Swyddfa Dramor a Chymanwlad
- Adran Llywodraeth Leol a Chymunedau
- Adran Iechyd
- Trysorlys EM

Mae'r adrannau hyn yn effeithio ar ein bywydau bob dydd ac yn cael eu hariannu gennym, ond maent yn gwrthod ein gwasanaethu yn Gymraeg. Ac ni all neb eu gorfodi i wneud hynny. Mae'n hollbwysig bod Gweinidogion y Goron yn cael eu cynnwys yn y GCD hwn er mwyn sicrhau bod y sawl sydd yn ein llywodraethu yn gwneud hynny yn ein hiaith ein hun. Dyma ein hawl fel dinasyddion. Mae hefyd yn bwysig i Weinidogion y Goron osod esiampl clir i gyrff eraill o ran gweithredu dwyieithog.

ATODIAD 2 - Cwmnïau Ffonau Symudol a Gwasanaeth yn Gymraeg

Cefndir

Mae'r Mobile Broadband Group yn cynrychioli'r cwmnïau ffôn O2, Orange, T-Mobile, Virgin Mobile, Vodafone a 3 Mobile.

Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig i Bwyllgor Deddfwriaeth 5 dywedodd:

*...voluntary action to supply **certain** service elements bi-lingually is already happening. For example, **some** operators have produced bi-lingual signage in **some** Welsh stores and staff have started to wear badges that identify Welsh speakers, so that in store advice can be offered in Welsh, if the customer so wishes. The Welsh Language Society has dismissed these efforts as tokenism. The MBG completely disagrees. These initiatives represent a **significant investment in physical assets and training** that promote, in a proportionate and practical way, bi-lingualism in Wales. We feel that encouragement of voluntary action would ultimately be much more beneficial for the language, telecommunications companies and their customers than legislative action.*
(ni biau'r pwyslais)

Ymchwil yng Nghaerdydd

Dyma'r realiti. Mae gan y cwmnïau hyn siopau yng Nghaerdydd. Dyma dabl sy'n dangos sut y mae'r cwmnïau hyn yn manteisio ar y cyfle sydd ganddynt i gynnig y lefel isaf o wasanaeth yn Gymraeg drwy osod arwyddion Cymraeg yn eu siopau..

Nid oes yr un ohonynt yn trin y Gymraeg yn gydradd â'r Saesneg drwy arddangos arwydd Cymraeg am bob arwydd Saesneg. Ar y gorau, mae rhai o'r siopau yn dangos ambell arwydd yn Gymraeg ond mae'r mwyafrif ohonynt yn gwbl amddifad o unrhyw arwydd Cymraeg o gwbl.

Mae Orange yn anfon neges gymysglyd i'r cyhoedd yng Nghymru drwy roi rhai arwyddion Cymraeg yn eu siop ar Heol y Frenhines ond dim arwydd Cymraeg o gwbl yn eu siop yng Nghanolfan Siopa Capitol.

Ond cwbl glir yw neges T-Mobile, 3, a Virgin Media – hynny yw, does dim croeso i'w cwsmeriaid Cymraeg.

Siop	Pob arwydd yn Gymraeg a Saesneg yn gydradd	Rhai arwyddion Cymraeg	Dim arwyddion Cymraeg
Orange, Heol y Frenhines		X	
Orange, Capitol			X
O2, Heol y Frenhines		X	
Vodafone, Canolfan Dewi Sant		X	

<i>T-mobile</i> , Canolfan Dewi Sant			X
<i>T-Mobile</i> , Heol y Frenhines			X
3, Capitol			X
3, Canolfan Dewi Sant			X
<i>Virgin Media</i> , Canolfan Dewi Sant			X

Dyma dabl sy'n dangos faint o gynnwys Cymraeg sydd ar wefannau'r cwmnïau ffôn symudol sy'n gwasanaethu pobl Cymru ar hyn o bryd

Cwmni	Gwefan hollol ddwyieithog	Peth cynnwys Cymraeg	Dim cynnwys Cymraeg
Orange			X
O2			X
Vodafone			X
T-Mobile			X
3			X

Dyma dabl sy'n dangos pa gwmnïau ffôn symudol sy'n cynnig cyfriflen Cymraeg i'w cwsmeriaid yng Nghymru

Cwmni	Cyfriflen ar gael yn Gymraeg	Cyfriflen ddim ar gael yn Gymraeg
Orange		X
O2		X
Vodafone		X
T-Mobile		X
3		X

Dyma dabl sy'n dangos pa gwmnïau ffôn symudol sy'n cynnig gwasanaeth Cymraeg dros y ffôn i'w cwsmeriaid yng Nghymru

Cwmni	Gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael	Dim gwasanaeth ffôn Cymraeg ar gael
Orange		X
O2		X
Vodafone		X
T-Mobile		X
3		X

Dyma dabl sy'n dangos pa gwmnïau ffôn symudol sy'n cynnig y Gymraeg fel dewis ieithyddol ar eu ffônau symudol

Cwmni	Opsiwn Cymraeg ar gael	Dim opsiwn Cymraeg ar gael
Orange		X
O2		X
Vodafone		X
T-Mobile		X
3		X

Orange: Dim rhwymedigaeth i gynnis gwasanaeth dwyieithog

Mae ymgyrchoedd a thrafodaethau'r Gymdeithas gyda Orange yn tanlinellu pa mor aneffeithiol yw 'perswad' Bwrdd yr Iaith. Mewn datganiad gobeithiol yn 2000 dywedodd y Bwrdd

"Mae'r cwmni ffonau symudol, Orange, heddiw wedi cadarnhau fod y Gymraeg ar ben y rhestr o'r ieithoedd mae'n eu hystyried yn allweddol ar gyfer rhaglen y cwmni o ddatblygu cyfathrebu amlieithog yn y DU."

Bedair mlynedd yn ddiweddarach, gyda dim wedi newid, dyma oedd ymateb llefarydd Orange i ymgyrch gan y Gymdeithas,:

"There is no obligation on Orange or any company operating in Wales to provide bilingual services."

O2: Mae'r Gymraeg yn drysu pobl

Pan aeth aelod o Gymdeithas yr Iaith Gymraeg i siop O2 ym Mangor rhai misoedd yn ôl, dwedodd y staff wrtho eu bod nhw wedi gofyn sawl tro i'w pencadlys am gael bathodynau Cymraeg i ddynodi eu bod yn siarad Cymraeg, ond cafwyd yr ymateb bod y bathodynau wedi cael eu gwahardd *"rhag ofn bod nhw'n drysu pobl"*. Roedd staff eu hunain yn ymddiheuriol iawn fod 'na bron ddim byd yn Gymraeg yn y siop - O2 oedd wedi gwrthod gwneud mwy yn Gymraeg.

Vodafone: Un iaith, un wlad.

Caiff pwysigrwydd deddfwriaeth yn y cyd-destun hwn ei brofi trwy gyfeirio at gyfarfod a fu rhwng dirprwyaeth o'r Gymdeithas a rhai o brif swyddogion Vodafone. Y neges glir oedd na fyddai unrhyw newid ym mholisi'r cwmni tuag at y Gymraeg hyd nes y byddai'r sefyllfa deddfwriaethol yn newid. Un uned oedd y Deyrnas Unedig, gyda'r Saesneg yn iaith i'r uned honno. I gwmnïau masnachol fel y rhain, sy'n gweithredu mewn marchnad eang, deddfau sydd yn gosod rheolau'r gêm iddynt hwy a'u cystadleuwyr - unwaith y mae deddf wedi ei phasio, mae'n rhaid iddynt greu peirianwaith i gydymffurfio â'r deddf honno. Dylai'r Gymraeg fod ynghanol y peirianwaith hwnnw, yn hytrach na bod angen i rywrai geisio dwyn perswâd ar bob cwmni unigol, gan obeithio am y gorau.

(O dystiolaeth Cymdeithas yr Iaith i Gomisiwn Richard -

[http://www.richardcommission.gov.uk/content/evidence/written/cymdeithas/written%20sub%20mission%20-%20cymdeithas%20yr%20iaith%20gymraeg%20\(welsh\).htm](http://www.richardcommission.gov.uk/content/evidence/written/cymdeithas/written%20sub%20mission%20-%20cymdeithas%20yr%20iaith%20gymraeg%20(welsh).htm))

3 Mobile: Anwybodaeth

Yn dilyn cyflwyno deiseb o dros 1,400 o enwau yn galw am wasanaethau dwyieithog yng Nghymru gan cwmnïau ffonau symudol, derbyniodd Cymdeithas yr Iaith yr ymateb canlynol gan gwmni '3':

"We understand that the majority of Welsh speakers also speak English as either a first or second language... Whilst we are unable to offer a dedicated Welsh language service to these people we are also in such a position with the roughly 600,000 people who each speak Arabic, Bengali, Pahari, French or Polish and reside in the UK."

Mae'r llythyr yma yn adlewyrchu'r angen am Mesur Iaith sydd yn cynnwys y cwmnïau ffôn symudol. Mae ymateb '3' yn llawn rhethreg hen ffasiwn ac anwybodaeth, ac yn anwybyddu'r ffaith mai'r Gymraeg yw priod iaith Cymru.